PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 30 Ionawr 2025 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) a/ac Andrea Tomlin.

Ar gyfer eitem 5: Aelodau Cyfetholedig Addysg Colette Owen a Neil Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Swyddog Adran 151 (ET), Pennaeth Gwasanaethau Addysg (GD), Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), Pennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedau (LG), Prif Reolwr Addysg (JB), Prif Lyfrgellydd (DO), Cydlynydd Craffu (RhE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RhT-J ac ED)

Ar gyfer eitem 5: Neil Foley (Pennaeth Ysgol Uwchradd Prestatyn a Phennaeth Gweithredol Ysgol Crist y Gair), Simon Smith (Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Salford sy'n cynrychioli Esgobaeth Wrecsam) ynghyd â chynrychiolwyr GwE Jacqueline Chan (Arweinydd Craidd– Cynradd) a Mair Herbert (Arweinydd Craidd – Uwchradd)

Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Diane King; Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, Gwyneth Ellis; Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, Emrys Wynne – oll yn bresennol drwy wahoddiad y Pwyllgor.

Arsylwyr: Y Cynghorydd Brian Jones a'r Cynghorydd Will Price.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Terry Mendies a John Droog (Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Crist y Gair).

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen, Crist y Gair:

Y Cynghorydd Ellie Chard fel Llywodraethwr AALl yn Ysgol Tir Morfa a Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned yn Ysgol Christchurch
Y Cynghorydd Bobby Feeley fel Llywodraethwr AALl yn Ysgol Stryd Rhos, Rhuthun

Y Cynghorydd Martyn Hogg fel Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy
Y Cynghorydd Carol Holliday fel Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned yn Ysgol Penmorfa ac Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Alan Hughes fel Llywodraethwr yn Ysgol Caer Drewyn, Corwen
Y Cynghorydd Paul Keddie fel Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Collen, Llangollen
Y Cynghorydd Gareth Sandilands fel Llywodraethwr AALl yn Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Andrea Tomlin fel nain i ddisgybl yn Ysgol Crist y Gair.
Y Cynghorydd Emrys Wynne fel Llywodraethwr AALl yn Ysgol Borthyn, Rhuthun
Aelod Cyfetholedig Colette Owen yn ei rôl fel aelod Cyfetholedig Craffu statudol yr Eglwys Gatholig ar gyfer materion addysg ac Ymgynghorydd Addysg ar gyfer Esgobaeth Wrecsam
Aelod Cyfetholedig Neil Roberts fel Llywodraethwr yn Ysgol y Parc, Dinbych

Datganodd y Cynghorwyr Gareth Sandilands ac Alan Hughes gysylltiad yn eitem 6 ar y rhaglen hefyd, sef y Wybodaeth Ddiweddaraf am Osod Cyllideb Refeniw 2025/26 yn sgil eu rolau fel cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024.

Materion yn Codi – Tudalen 10. 'Cofrestr Risgiau Gorfforaethol'. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, nododd aelodau y dylid edrych yn fanylach ar Risg 50 i ddileu elw mewn cysylltiad â gofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal a chyflwynwyd Cais Craffu. Rhoddodd y Cydlynydd Craffu wybod bod cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno yn y cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Roedd y Grŵp, ar ôl derbyn adroddiad gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant, yn hyderus bod y Cyngor yn monitro'r datblygiadau'n agos ac yn aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru (LlC) Roeddent felly wedi cytuno i gynnwys yr eitem hon ar y rhaglen waith i'w harchwilio gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Ionawr 2026. Rhagwelwyd y byddai'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â hyn, a nifer y darparwyr posibl, yn llawer cliriach erbyn hynny. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg sicrwydd i'r Pwyllgor y byddent yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau pellach yn y cyfamser.

<u>Penderfynwyd</u>: derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth a fyddai'n cael ei thrafod o dan yr eitem ganlynol, cynigodd y Cynghorydd Gareth Sandilands y dylid symud y cyfarfod i Ran II, eiliodd y Cynghorydd Ellie Chard y cynnig. Roedd y Pwyllgor yn gytûn ac felly:

<u>PENDERFYNWYD</u> *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 15 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

5 CRIST Y GAIR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor, a rhoddodd wybod fod Ysgol Gatholig Crist y Gair wedi agor ym mis Medi 2019. Yn dilyn arolwg Estyn ym mis Mai 2022, rhoddwyd yr ysgol dan Fesurau Arbennig. Ers hynny, roedd cryn dipyn o waith wedi cael ei gwblhau gan fudd-ddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r 5 argymhelliad gan Estyn a chyflawni gwelliannau parhaol yn yr ysgol. Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaeth Addysg y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed hyd yma fel y nodir yn yr adroddiad, gan bwysleisio'r gefnogaeth sylweddol yr oedd yr ysgol yn parhau i'w derbyn ar sawl ffurf. Roedd prif ffocws y gwaith a gwblhawyd yn cynnwys cyfuno'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan sicrhau sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau gwella cadarn a fyddai'n sicrhau datblygiadau cynaliadwy i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, y Cyngor, GwE a swyddogion:

- nodi bod recriwtio staff yn broblem ar draws addysg gynradd ac uwchradd yn genedlaethol, nid oedd y ffaith fod Crist y Gair yn ysgol gydol oes wedi cyfrannu at y broblem hon. Rhoddwyd sicrwydd bod swyddogion yn arbenigwyr yn y sectorau addysg perthnasol. Gan fod Ysgol Crist y Gair yn 'ysgol gydol oes', roedd y nodweddion ar gyfer Pennaeth yn cynnwys gwybodaeth a phrofiad o ymdrin â phlant o 3 i 16 oed, roedd sgiliau arwain yn hanfodol, roedd modd trosglwyddo'r sgiliau hyn rhwng y ddau sector. Gan fod Ysgol Crist y Gair yn ysgol Gatholig, roedd yn rhaid i'r Pennaeth fod yn arfer y ffydd Gatholig. O ganlyniad, roedd hyn yn golygu bod llai o bobl yn gymwys i ymgeisio am y rôl.

Nid oedd hyn yn unigryw i ysgolion ffydd, roedd yr un heriau'n berthnasol wrth recriwtio i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- sicrhau Aelodau nad oedd y gefnogaeth a ddarperir i Ysgol Crist y Gair yn cael effaith negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar ysgolion eraill megis Ysgol Uwchradd Prestatyn, wrth i staff gael eu secondio i gefnogi'r gwaith yn Ysgol Crist y Gair. Roedd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos. Roedd gan Ysgol Uwchradd Prestatyn broffil Estyn rhagorol ac roedd staff eraill yn yr ysgol wedi camu ymlaen i rôl arwain yn yr ysgol honno ac yn ennill profiad gwerthfawr.
- ddarparu sicrwydd na fyddai'r ffaith bod GwE fel sefydliad ar fin dod i ben yn cael effaith negyddol ar y gefnogaeth a ddarperir i'r ysgol, gan fod y ddarpariaeth gwasanaethau cefnogi ysgolion yn ofyniad statudol, felly byddai'r gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu dan ddull darparu gwahanol. Sefydlwyd Bwrdd Pontio yn cynnwys Penaethiaid Addysg ac AD i gefnogi darpariaeth y model newydd.
- bwysleisio, er mwyn helpu gyda recriwtio, ei bod yn hanfodol gwneud swyddi addysgu ym mhob sector yn ddymunol ac yn ddeniadol a chwblhawyd gwaith i gyflawni hyn.
- gadarnhau fod y berthynas gydag ysgolion lleol eraill wedi cael ei harchwilio'n fanwl. Yn ogystal â hynny, roedd nosweithiau agored yn cael eu cynnal er mwyn helpu i recriwtio disgyblion. Roedd rhagor o waith recriwtio yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y disgyblion, roedd hyn yn cynnwys gwella canfyddiad y cyhoedd a'r darlun o'r ysgol drwy offer marchnata amrywiol, cynyddu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, gweithio gydag Ysgol Uwchradd Prestatyn i drefnu teithiau ysgol ar y cyd ac ati (gan y byddai hyn yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i deuluoedd), cyhoeddi newyddlen reolaidd, yn ogystal â hyrwyddo mentrau megis disgybl y dydd/wythnos/mis er mwyn creu ethos cadarnhaol yn yr ysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am ddarparu atebion cynhwysol i gwestiynau'r aelodau. Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

<u>PENDERFYNWYD:</u> yn amodol ar yr uchod ac ar ôl ystyried sylwadau Estyn yn dilyn eu hymweliad â'r ysgol ym mis Tachwedd 2024 -

(i) cydnabod y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma o ran darparu Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg (CGOA) a Chynllun Cefnogi Ysgolion ar y cyd awdurdodau lleol a GwE yn dilyn Arolwg Estyn 2022;

(ii) gwneud cais i adroddiad cynnydd arall gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ddechrau 2026; a

(iii) gwneud cais yn y cyfamser i adroddiad cynnydd gael ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth tuag at ddiwedd tymor yr haf 2025

AR YR ADEG HON (11.30 AM) CAFWYD EGWYL O 10 MUNUD AILDDECHREUODD Y CYFARFOD AM 11.40AM.

RHAN I

6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM OSOD CYLLIDEB REFENIW 2025/26

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, ac Asedau Strategol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn egluro bod atebolrwydd cyfreithiol ar y Cyngor i osod cyllideb gytbwys. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i wella dangosyddion monitro'r gyllideb, ond cymerir gofal i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd. Nodwyd hefyd bod ariannu gwasanaethau'r Cyngor yn her barhaus. Pwysleisiodd y Swyddog Adran 151 y pwysigrwydd o adolygu'r gyllideb ar gyfer 2025/2026 a 2027/2028 yn rheolaidd a chadarnhaodd y byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Amlygodd fod y Cyngor yn ddibynnol iawn ar setliadau gan Lywodraeth Cymru (LlC). Cydnabuwyd effaith pensiynau a chodiadau cyflog a dyraniadau cyllid grant yn ystod y flwyddyn cyn cyhoeddi'r Grant Cynnal Refeniw hefyd. Roedd hyn yn golygu bod y sefyllfa wirioneddol yn dangos cynnydd ariannol o 7% ar gyfer 2024/25. Roedd LlC yn gweithio tuag at ddefnyddio dull mwy cynaliadwy i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â setliadau ariannol yn y dyfodol. Er bod y sefyllfa'n llawer mwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, roedd yr Awdurdod yn dal i wynebu pwysau cyllidebol yn sgil cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn arbennig gwasanaethau gofal cymdeithasol dwys a chymhleth.

Holodd Aelodau am addewid uchelgeisiol y Cyngor i fynd i'r afael â'r Argyfwng Newid Hinsawdd, a gofynnodd p'un a ddylid ei ystyried fel pwysau cyllidebol. Rhoddodd y swyddogion wybod bod yr Argyfwng Hinsawdd yn nod gyffredinol ac felly roedd y ffordd yr ymdrinnir â hi yn wahanol i'r ffordd yr ymdrinnir â phwysau eraill e.e. digartrefedd, a oedd yn haws i'w fesur o ran anghenion cyllid. Er na fyddwn o bosibl yn cyrraedd y targed di-garbon net erbyn 2030, roedd hyn yn parhau i fod yn uchelgais. Tynnodd y swyddogion sylw aelodau at Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn cynnwys buddsoddiad o £250,000 mewn blaenoriaethau sy'n ymwneud yn benodol â newid hinsawdd. Roedd yn bwysig cofio bod dyraniad tuag at wireddu'r uchelgais hon hefyd wedi'i gynnwys yng nghyllideb cyfalaf y Cyngor. Nodwyd bod angen gwirio'r gymhareb refeniw: cyfalaf, gan fod cyfraddau'n newid yn dragwyddol, ac roedd angen ystyriaeth bellach ar draws pob cyllideb i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Eglurwyd bod y dull hwn yn wahanol i'r dull arferol, gan eu bod yn dewis rhoi mesurau ymyrraeth ar waith nawr yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau yn y dyfodol, a allai fod yn fwy costus. Roedd yn bwysig ystyried cyllid yn y cynllun ariannol tymor canolig at y diben hwn.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig ag Yswiriant Gwladol, o ystyried y pryderon a godwyd gan Lywodraeth yr Alban ynghylch costau cynyddol. Nodwyd nad oedd y costau ychwanegol hyn wedi'u hariannu'n llawn â'r setliad Grant Cynnal Refeniw. Roedd swyddogion yn cytuno ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o'r materion hyn, ond pwysleisiwyd nad oedd

unrhyw dybiaethau wedi'u gwneud o ran faint o incwm neu gyllid a dderbynnir i dalu am gostau anuniongyrchol cyfraniadau YG cyflogwyr ar wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu comisiynu gan ddarparwyr gwasanaeth allanol. Cynigwyd y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i geisio eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas â darparu cyllid digonol i dalu am gostau'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

Pwysleisiodd aelodau'r angen am ddull sensitif a gofalus wrth fynd i'r afael â phrosiectau trawsnewidiol i'r dyfodol. Gofynnwyd p'un a oedd y gyllideb yn ddigon i fynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd. Ymatebodd swyddogion drwy amlygu'r agwedd ddemocrataidd, gan nodi fod aelodau wedi derbyn llawer o wybodaeth drwy gydol y flwyddyn, a'i bod yn bwysig gwneud tybiaethau'n seiliedig ar ragfynegiadau. Roedd y tybiaethau a'r rhagfynegiadau cyllidebol yn seiliedig ar Ddadansoddiad Cyllid Cymru, offeryn a ddefnyddiwyd yn eang gan awdurdodau cyhoeddus fel sail ar gyfer gosod cyllideb. Cadarnhawyd bod rhagor o waith wedi'i gwblhau i nodi pwysau, a byddai'r trafodaethau'n parhau yn y Gweithdy Aelodau'r diwrnod wedyn.

Awgrymodd Aelodau efallai y byddai'n ddoeth i'r Cyngor ddal rhywfaint o'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ôl, yn hytrach na gwario'r arian i gyd, neu ystyried cynnydd pellach yn Nhreth y Cyngor, er mwyn lleddfu diffygion posibl yn y gyllideb i'r dyfodol. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i fabwysiadu dull mwy ataliol a gofalus, ond cydnabuwyd bod pryderon yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Daeth y Pennaeth Cyllid ac Archwilio i gasgliad gan nodi fod y setliad yn well na'r disgwyl, a bod yr Aelod Arweiniol a swyddogion yn edrych ar y gyllideb o safbwynt tymor canolig.

<u>PENDERFYNWYD:</u> yn amodol ar y sylwadau uchod, argymell bod y Cabinet yn:

(i) yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â setliad dros dro 2025/26 llywodraeth leol ynghyd â'r pwysau cyllidebol a nodwyd, cefnogi'r mesurau arfaethedig a gymerwyd hyd yma mewn ymgais i osod cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26;

(ii) gofyn i'r Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol ysgrifennu at Ganghellor Trysorlys Llywodraeth y DU i geisio eglurhad brys ar b'un a fydd awdurdodau lleol yn derbyn digon o gyllid refeniw i dalu'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, a bod cyhoeddiadau cyllidebol i'r dyfodol yn fwy eglur o ran costau anuniongyrchol tebyg. Dylid hefyd anfon copi o'r llythyr at Ysgrifenwyr Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid a'r Gymraeg a Thai a Llywodraeth Leol; ac

(iii) ystyried nodi'r costau/pwysau disgwyliedig sydd ynghlwm â darparu uchelgais y Cyngor i gyflawni statws di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 mewn strategaethau cyllidebol/cynlluniau ariannol tymor canolig.

7 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD 2023-24

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth adroddiad blynyddol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn erbyn y Safonau Cenedlaethol. Nodwyd bod 2023/24 wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ond soniwyd am feysydd a oedd dal yn ymofyn gwelliant, megis staffio a hyfforddiant. Roedd o'r farn bod y Cyngor ar y trywydd iawn i sicrhau llwyddiant i'r dyfodol.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau sylw at berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ddiwedd mis Mawrth 2024, gan nodi na ddaeth y newidiadau i oriau agor y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i rym tan fis Mehefin 2024, felly byddai effaith y newidiadau hynny i'w gweld yn adroddiad 2024/25. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth yn dechrau ffurfio sefyllfa gadarnhaol. Nodwyd hefyd bod un dangosydd na lwyddwyd i'w fodloni, yn arbennig mewn perthynas â chymwysterau a lefelau Staffio. Y rheswm dros hyn oedd bod nifer o lyfrgelloedd y Cyngor yn cynnal gwasanaeth Siop Un Alwad ac felly roedd lefelau staffio'n adlewyrchu'r anghenion a'r sgiliau i staffio cyfleusterau cymunedol amlbwrpas. Nodwyd sawl maes gwasanaeth da, yn arbennig nifer y digwyddiadau llyfrgell, megis 'Gwau a Sgwrsio', clybiau darllen, digwyddiadau Cwrdd â'r Awdur a gweithgareddau i blant ac ati, a phwysleisiwyd bod llyfrgelloedd yn datblygu i fod yn ganolbwynt i gymunedau.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, nododd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- bod angen cynnal hyfforddiant ffurfiol pan mae llyfrgelloedd ar gau. Roedd hyn yn heriol ar hyn o bryd gan fod angen hyfforddi staff ar y System Rheoli Llyfrgelloedd newydd.

- pwysleisiwyd y pwysigrwydd o sicrhau arweiniad proffesiynol i'r Gwasanaeth, ond roedd llyfrgelloedd yn aml yn darparu cyngor ar wasanaethau hanfodol i breswylwyr, ac roedd ar staff y Gwasanaeth Llyfrgelloedd felly angen eu hyfforddi i gynghori ar wasanaethau gwahanol.

- er gwaethaf y gostyngiad mewn oriau agor, y nod oedd darparu'r Gwasanaeth yn deg ar draws y sir gyfan

- byddai'r gofynion i wneud arbedion yn cael effaith ar allu'r Gwasanaeth i barhau i wireddu gwelliannau. Er hynny, roedd llyfrgelloedd unigol wedi gallu canfod cyllid lleol i gynnal prosiectau penodol e.e. llyfrgelloedd Llanelwy a Phrestatyn.

- roedd y 450+ o ymatebion a dderbyniwyd i'r Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Byddai canfyddiadau'r arolwg hwn yn cefnogi cynlluniau'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Ychwanegodd aelodau ei bod yn bwysig i'r Cyngor ddal i fyny ag anghenion cymunedau lleol, gan sicrhau fod gwasanaethau wedi'u halinio â'r gofynion presennol. Roedd Aelodau'n falch bod asesiad Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru o Wasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor yn debyg i gasgliadau'r broses hunanasesu, gan ddarparu adborth gwerthfawr ar gyfer gwelliannau i'r dyfodol. Felly:

PENDERFYNWYD: yn amodol ar y sylwadau uchod –

(i) cydnabod a llongyfarch perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru; a

(ii) gwneud cais am adroddiad cynnydd arall ar berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y safonau cenedlaethol ym mis Ionawr 2026.

8 TREFNIADAU AR GYFER ADOLYGU CYFLWYNIAD Y GWASANAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU NEWYDD

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i aelodau fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi, mewn ymateb i gais craffu gan yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol ar gyfer yr Amgylchedd a Chludiant, argymell sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu cyflwyniad y system ailgylchu a gwastraff newydd. Amcan yr adolygiad yw nodi unrhyw ddiffyg o ran cynllunio, gweithredu a chyflwyno'r Gwasanaeth newydd, gyda'r nod o ddysgu gwersi a fyddai'n cefnogi'r broses o gynllunio newidiadau gwasanaeth neu brosiectau trawsnewid sylweddol i'r dyfodol. Gyda'r nod o sicrhau dosbarthiad teg o aelodau, yn ddaearyddol ac yn wleidyddol, gofynnwyd i bob Grŵp Ardal Aelodau enwebu dau gynrychiolydd yr un, nad ydynt yn aelodau o'r gweinyddiaethau presennol neu flaenorol.

Nodwyd amserlen o 12 mis i'r Grŵp Tasg a Gorffen gwblhau ei waith. Tasg gyntaf y Grŵp fyddai mapio cynllun clir ar gyfer ei waith, penderfynu ar ei ffrydiau gwaith, a chytuno ar amserlen gyfarfodydd.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu eu bod wedi derbyn yr enwebiadau terfynol ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen y bore hwnnw. Y cam nesaf fyddai sicrhau cydbwysedd gwleidyddol o ran yr enwebiadau cyn belled ag y bo modd. Os ddim, ceisir cyngor gan Arweinwyr Grwpiau ar y penodiadau.

Darparwyd cadarnhad fod gan y Grŵp Tasg a Gorffen y pŵer i ddiwygio'r cylch gorchwyl lle bo angen. Bwriedir i'r cylch gorchwyl weithredu fel canllaw i gefnogi'r Grŵp i ymgymryd â'i waith, ni ddylai atal gwaith ymchwil y Grŵp. At ddibenion gweithredol, roedd angen i Bwyllgor Craffu sefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen yn ffurfiol, ac er rhesymau tryloywder maes o law, byddai angen adrodd ei ganfyddiadau a'i gasgliadau i'r un pwyllgor, dyma'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Felly:

<u>PENDERFYNWYD</u>: yn amodol ar yr uchod, ac ar ôl ystyried y wybodaeth a'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer cynnal yr adolygiad (Atodiad 1 i'r adroddiad),

(i) cadarnhau'r trefniadau arfaethedig i gynnal yr adolygiad, fel y manylir ym mharagraffau 4.5 a 4.6 yn yr adroddiad; a

(ii) chytuno i dderbyn canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad maes o law.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r cyfarfod i drafod y rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor.

Rhoddwyd gwybod y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 13 Mawrth ac roedd tair eitem i'w cyflwyno. Roedd y rhain yn cynnwys Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu, Strategaeth Economaidd a Datblygu Busnes, a Chysylltedd Rhyngrwyd a Theleffoni yn Sir Ddinbych. Rhoddwyd gwybod, ar ôl derbyn adroddiad gwybodaeth, bod aelodau wedi mynegi yn eu hadborth eu bod yn awyddus i dderbyn adroddiad ffurfiol ar Incwm Meysydd Parcio yn dilyn y cynnydd mewn ffioedd a'r newidiadau i'r oriau codi tâl a gytunwyd fel rhan o gyllideb 2024/25. Awgrymodd y Cydlynydd Craffu y dylid cynnig hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth a gohirio'r eitem Cysylltedd Rhyngrwyd a Theleffoni yn Sir Ddinbych tan fis Mai 2025. Roedd aelodau'n cytuno, ac felly:

<u>Penderfynwyd:</u> yn amodol ar gynnwys adroddiad ar 'Incwm Meysydd Parcio' ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Mawrth, ac ail-drefnu'r eitem 'Cysylltedd Rhyngrwyd a Theleffoni yn Sir Ddinbych' o fis Mawrth i fis Mai 2025, cadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 1:05pm.